**MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL**

**Rheoliadau Cyd-drefnu Nawdd Cymdeithasol (Gofal Iechyd Cilyddol) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 30A.2. Mae Rh S30A yn rhagnodi bod yn rhaid i Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol gael ei osod ac i Gynnig Cydsyniad Offeryn Statudol gael ei gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") os yw un o Offerynnau Statudol (OS) y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

2. Gosodwyd Rheoliadau Cyd-drefnu Nawdd Cymdeithasol (Gofal Iechyd Cilyddol) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r DU) 2019 gerbron Senedd y DU ar 11 Chwefror 2019 ac maent yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad yn awr. Mae'r rheoliadau ar gael yn:

https://beta.parliament.uk/work-packages/PMg3ENDc

**Crynodeb o’r Offeryn Statudol a’i nod**

3. Nod yr OS yw cywiro diffygion mewn deddfwriaeth sy'n codi wrth i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, mewn perthynas ag elfennau gofal iechyd cyfatebol o gyd-drefnu nawdd cymdeithasol.

4. Bydd yr OS hwn yn gwneud cywiriadau am ddwyochredd; yn diffodd y darpariaethau yn y tymor hir gan roi trefniadau pontio yn eu lle hyd at fis Rhagfyr 2020 ar gyfer gwledydd sydd wedi ymrwymo i gytundeb cyfatebol priodol gyda Llywodraeth y DU.

**Y ddarpariaeth berthnasol sydd i'w gwneud gan yr OS**

5. Bydd y Rheoliadau yn diwygio adran 131 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Bydd hyn yn dileu pwerau Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynglŷn â thalu gan Weinidog Cymru gostau teithio a ysgwyddir at ddibenion cael gwasanaethau a awdurdodwyd i'w darparu mewn Gwladwriaeth arall yr Ardal Economaidd Ewropeaidd o dan Erthygl 20 neu 27 o Reoliad(EC) 883/2004. Bydd y pŵer gwneud rheoliadau hwn yn cael ei arbed mewn perthynas â thriniaeth dramor y gellir parhau i'w hawdurdodi ar ôl yr ymadawiad o dan y darpariaethau arbedion ar gyfer y gyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir.

6. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau a ddisgrifir ym mharagraff 5 uchod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â darparu gofal iechyd.

**Pam mae'n briodol i'r OS wneud y ddarpariaeth hon**

7. Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol) o ran y polisi ar gyfer y cywiriadau. Er bod gofal iechyd yn faes sydd wedi'i ddatganoli, cyfyngedig yw'r posibilrwydd i Gymru roi polisi gwahanol ar waith oherwydd mae'n ofynnol bodloni rhwymedigaethau rhyngwladol yr ymrwymwyd iddynt gan y DU. Byddai'r rhain yn cynnwys trefniadau gofal iechyd rhyngwladol. Felly, byddai gwneud OS ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith, a chymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cydsynio i OS ar draws y DU yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hybu eglurder a hygyrchedd i gleifion a darparwyr. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

**Vaughan Gething AC**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

11 Mawrth 2019